

## HERBERT, WILLIAM (1460 - 1491),

**Enw:** William Herbert

**Dyddiad geni:** 1460

**Dyddiad marw:** 1491

**Priod:** Mary Herbert (née Woodville)

**Plentyn:** Elizabeth Somerset (née Herbert)

**Rhiant:** Anne Herbert (née Devereux)

**Rhiant:** William Herbert

**Rhyw:** Gwryw

**Maes gweithgaredd:** Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Milwrol

**Awdur:** Howell Thomas Evans

mab hynaf [William Herbert, Iarll Pembroke](#) (bu farw 1469). Dywed William o Worcester iddo gael ei ddyweddio â Mary Woodville, chwaer y frenhines, a'i wneuthur yn arglwydd Dunster (Medi 1466); daeth yn iarll Pembroke ar farw ei dad. Dilynodd ei dad 'without proof of age' yn yr holl swyddi a ddaliai hwnnw, a rhoddwyd awdurdod iddo i dderbyn i warogaeth y [brenin](#) yr holl wrthryfelwyr o Gymry oddigerth [Jasper Tudor](#). Bu'n gwasanaethu gyda'r brenin yn Ffrainc, 1475, a rhoddwyd iddo awdurdod i gymryd Walter ap Gwilym ac eraill i'r ddalfa, Hydref 1477. Ar gais y brenin cymerodd iarllaeth Huntingdon yn lle un Pembroke (Gorffennaf 1479). Yn 1483 cafodd gomisiwn i godi milwyr yn Ne Cymru i ddifodi gwrthryfel Buckingham yn erbyn Richard III. Cafodd flwydd-dâl o 400 marc (Mawrth 1484). Mary, merch Richard, iarll Rivers, oedd ei wraig; bu iddynt un plentyn - Elizabeth, a briododd [Charles Somerset, iarll Worcester](#), cyndad dugiaid Beaufort.

### Awdur

Howell Thomas Evans, (1878 - 1950)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

